

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
Answers to Questions not reached in Plenary
04/06/2008

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys
Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Questions to the Minister for the Environment, Sustainability and Housing
- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth
Questions to the Minister for Heritage
- 4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
Questions to the Minister for Social Justice and Local Government

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Questions to the Minister for the Environment, Sustainability and Housing

UK Marine Bill

Mesur Morol y DU

Q12 Chris Franks: Will the Minister make a statement on representations received regarding the UK Marine Bill? OAQ(3)0419(ESH)

C12 Chris Franks: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sylwadau a gafwyd ynghylch Mesur Morol y DU? OAQ(3)0419(ESH)

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): Over the last three years the Welsh Assembly Government has been discussing the development of the Marine Bill with key stakeholders in Wales. We received all Welsh responses to both Marine Bill consultations from the Department for Environment, food and Rural Affairs and we expect to receive all Welsh responses to the current draft Marine Bill consultation.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Dros y tair blynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn trafod datblygiad y Mesur Morol gyda rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru. Cafodd yr holl ymatebion a ddaeth o Gymru i'r ddau ymgynghoriad ar y Mesur Morol eu hanfon gan yr Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac yr ydym yn disgwyl cael yr holl ymatebion o Gymru i'r ymgynghoriad cyfredol ar ddrafft y Mesur Morol.

Tai Fforddiadwy mewn Ardaloedd Gwledig

Affordable Housing in Rural Areas

C13 Alun Ffred Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sicrhau bod digon o dai fforddiadwy ar gael mewn ardaloedd gwledig? OAQ(3)0390(ESH)

Q13 Alun Ffred Jones: Will the Minister make a statement on ensuring an adequate supply of affordable housing in rural areas? OAQ(3)0390(ESH)

Jane Davidson: Mae gennym nifer o fentrau i gynyddu'r ddarpariaeth tai fforddiadwy yng Nghymru wledig. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau cyflenwi tai fforddiadwy a chreu cronfa datblygu tai gwledig. Yr oedd yn bleser gennyf gyhoeddi'r gronfa hon y bore yma.

Jane Davidson: We have a number of initiatives aimed at increasing the provision of affordable housing in rural Wales. These include affordable housing delivery plans and the creation of a rural housing development fund, which I was pleased to announce this morning.

Housing Waiting Lists

Restrau aros ar gyfer Tai

Q14 Jenny Randerson: Will the Minister make a statement on housing waiting lists? OAQ(3)0389(ESH)

C14 Jenny Randerson: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am restrau aros ar gyfer tai? OAQ(3)0389(ESH)

Jane Davidson: The Welsh Assembly Government does not collect statistics on waiting lists in the social housing sector. Our guidance expects social landlords to work in partnership to meet the housing needs of its residents. We are giving priority to increasing access to affordable housing which should ease pressures on waiting lists.

Jane Davidson: Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn casglu ystadegau ynghylch rhestrau aros yn y sector tai cymdeithasol. Mae ein canllawiau yn disgwyl bod landlordiaid cymdeithasol yn gweithio mewn partneriaeth i fodloni anghenion tai eu preswylwyr. Yr ydym yn rhoi blaenoriaeth i wella mynediad i dai fforddiadwy, a ddylai leddfu'r pwysau ar y rhestrau aros.

Sustainable Building Materials

Deunyddiau Adeiladu Cynaliadwy

Q15 Brynle Williams: Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's priorities for promoting sustainable building materials? OAQ(3)0415(ESH)

C15 Brynle Williams: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer hyrwyddo deunyddiau adeiladu cynaliadwy? OAQ(3)0415(ESH)

Jane Davidson: We have started on the road to achieving zero carbon buildings and are committed to making Welsh buildings sustainable. Challenging targets, including requiring the use of sustainable materials are being set under the building research establishment environmental assessment method and the code for sustainable Homes for new buildings supported by Assembly Government funding, investment and land disposal.

Jane Davidson: Yr ydym wedi dechrau ar y ffordd i sicrhau adeiladau di-garbon ac rydym wedi ymrwymo i wneud adeiladau yng Nghymru yn gynaliadwy. Mae targedau heriol, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy, yn cael eu gosod o dan ddull asesu amgylcheddol y sefydliad ymchwil adeiladau a'r cod ar gyfer tai cynaliadwy ar gyfer tai newydd, a gefnogir gan gyllid, buddsoddiad a mesurau gwaredu tir Llywodraeth y Cynulliad.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth Questions to the Minister for Heritage

The Welsh Language LCO

Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yr Iaith Gymraeg

Q12 Eleanor Burnham: Will the Minister make a statement on the progress of the Welsh language legislative competence

C12 Eleanor Burnham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol yr

Order? OAQ(3)0359(HER)

The Minister for Heritage (Rhodri Glyn Thomas): The process of delivering the Welsh language LCO has been more complex and has taken longer than we expected but is now well underway. The LCO is being designed to ensure that we deliver on our 'One Wales' commitments regarding the Welsh language.

The Tourism Industry

Q13 David Melding: Will the Minister make a statement on measures taken to support the tourism industry in Wales? OAQ(3)0373(HER)

Rhodri Glyn Thomas: Wales's tourism strategy, 'Achieving Our Potential', identifies the challenges facing the industry and how these should be addressed to drive forward tourism development. We are supporting the industry through a range of marketing initiatives at both the regional and national level, and providing investment support for capital projects across Wales.

Take-up of Sport

Q14 Ann Jones: What is the Welsh Assembly Government doing to encourage the take-up of sport among young people? OAQ(3)0352(HER)

Rhodri Glyn Thomas: 'One Wales' confirms our commitment to improving levels of participation in sport and physical activity amongst young people. 'One Wales' is supported by our Climbing Higher strategy and next year we will launch an action plan that will set out our proposals so that we create even more opportunities for young people.

Promoting Sustainable Tourism

Q15 Sandy Mewies: What is the Assembly Government doing to support and promote sustainable tourism in Wales? OAQ(3)0387(HER)

iaith Gymraeg? OAQ(3)0359(HER)

Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Rhodri Glyn Thomas): Mae'r broses o gwblhau Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol y Gymraeg wedi bod yn fwy cymhleth ac wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl. Fodd bynnag, mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda. Mae'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol yn cael ei lunio i sicrhau ein bod yn cyflawni ymrwymadau 'Cymru'n Un' ynghylch y Gymraeg.

Y Diwydiant Twristiaeth

C13 David Melding: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gamau a gymerwyd i gefnogi'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru? OAQ(3)0373(HER)

Rhodri Glyn Thomas: Mae strategaeth dwristiaeth Cymru, 'Cyflawni Ein Potensial', yn nodi'r heriau y mae'r diwydiant yn eu hwynebu a sut dylid mynd i'r afael â'r rhain i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu twristiaeth. Yr ydym yn cefnogi'r diwydiant drwy amrywiaeth o fentrau marchnata ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, ac yr ydym yn buddsoddi mewn prosiectau cyfalaf ledled Cymru.

Cymryd Rhan mewn Chwaraeon

C14 Ann Jones: Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i annog rhagor o bobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon? OAQ(3)0352(HER)

Rhodri Glyn Thomas: Mae 'Cymru'n Un' yn cadarnhau ein hymrwymiad i wella lefel cyfranogiad pobl ifanc mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Cefnogir 'Cymru'n Un' gan ein strategaeth Dringo'n Uwch, a byddwn yn lansio cynllun gweithredu flwyddyn nesaf a fydd yn nodi'n cynigion i greu hyd yn oed mwy o gyfleoedd i bobl ifanc.

Hyrwyddo Twristiaeth Gynaliadwy

C15 Sandy Mewies: Beth mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i gefnogi a hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy yng Nghymru? OAQ(3)0387(HER)

Rhodri Glyn Thomas: I refer you to the answer that I gave to OAQ (3)0355 (HER).

Rhodri Glyn Thomas: Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i OAQ (3)0355 (HER).

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Questions to the Minister for Social Justice and Local Government

Older People's Strategy

Q3 Joyce Watson: Will the Minister outline the priorities for local government under the older people's strategy? OAQ(3)0391(SJL)

The Minister for Social Justice and Local Government (Brian Gibbons): When I launched phase 2 of the strategy for older people I asked local authorities to take a strategic approach to older people's issues, tackle age discrimination and plan ahead for an ageing society. I also said that they should take concerted and targeted action to engage older people more effectively.

*Atebwyd cwestiynau 4 i 12 yn y Cyfarfod Llawn.
Questions 4 to 12 answered in Plenary.*

Know your Limit Campaign

Q13 William Graham: Will the Minister outline the Welsh Assembly Government's contribution towards the Know your Limit campaign? OAQ(3)0375(SJL)

Brian Gibbons: This campaign is led by the Department of Health and Home Office, so people in Wales are benefiting from this non-devolved exercise. The Welsh Assembly Government is not contributing directly to the campaign.

Delivering Services

Q14 Nick Ramsay: Will the Minister make a statement on how local government in Wales delivers its services? OAQ(3)0352(SJL)

Brian Gibbons: Welsh local authorities deliver a wide range of high-quality services to the people of Wales every day of the week. They have a duty to organise their business in ways that secure continuous improvement in the services that they provide.

Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn

C3 Joyce Watson: A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer llywodraeth leol dan y strategaeth ar gyfer pobl hŷn? OAQ(3)0391(SJL)

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons): Pan lansiais ail gam y strategaeth pobl hŷn, gofynnais i awdurdodau lleol ymdrin â materion pobl hŷn mewn modd strategol, mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran a chynllunio ymlaen llaw ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio. Hefyd nodais y dylent gymryd camau pendant ar y cyd i ymgysylltu'n fwy effeithiol â phobl hŷn.

Ymgyrch Deall y Drefn

C13 William Graham: A wnaiff y Gweinidog amlinellu cyfraniad Llywodraeth Cynulliad Cymru at yr ymgyrch Deall y Drefn? OAQ(3)0375(SJL)

Brian Gibbons: Caiff yr ymgyrch hon ei harwain gan yr Adran Iechyd a'r Swyddfa Gartref, felly mae pobl yng Nghymru yn elwa ar ymgyrch sydd heb ei datganoli. Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyfrannu'n uniongyrchol i'r ymgyrch.

Cyflenwi Gwasanaethau

C14 Nick Ramsay: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae llywodraeth leol yng Nghymru yn cyflenwi ei gwasanaethau? OAQ(3)0352(SJL)

Brian Gibbons: Mae awdurdodau lleol Cymru yn darparu ystod eang o wasanaethau o safon uchel i bobl Cymru bob dydd. Mae dyletswydd arnynt i drefnu eu busnes mewn ffordd sy'n sicrhau bod y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn gwella'n barhaus.

Safonau Ymddygiad

C15 Nerys Evans: Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch yr arweiniad i gynghorwyr am safonau ymddygiad? OAQ(3)0348(SJL)

Brian Gibbons: In March, I approved an Order introducing a new model code of conduct for local government members in Wales. Under the terms of the Local Government Act 2000, local standards committees are responsible for promoting high standards of conduct and for giving guidance to members on observance of the code.

Standards of Conduct

Q15 Nerys Evans: What discussions has the Minister had regarding the guidance to councillors on standards of conduct? OAQ(3)0348(SJL)

Brian Gibbons: Ym mis Mawrth, cymeradwyais Orchymyn i gyflwyno cod ymddygiad model newydd i aelodau llywodraeth leol yng Nghymru. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, mae pwyllgorau safonau lleol yn gyfrifol am hyrwyddo safonau ymddygiad uchel ac am roi cyfarwyddyd i aelodau ar ddilyn y cod.